Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Modiwl Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

## Strwythur y Modiwl

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys dwy elfen. Mae un elfen yn grŵp o fodiwlau technoleg-benodol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu prosiectau penodol gan ddefnyddio:

- systemau thermol solar;
- pympiau gwres; a
- biomas

Mae'r elfen arall yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am elfennau o'r broses ddatblygu sy'n cynnwys y modiwl hwn am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban (CARES) gan Local Energy Scotland a Ricardo Energy & Environment.

Rhennir y modiwl hwn fel a ganlyn:

- **Cefndir y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** - Trosolwg o'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- **Sut i wneud cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** - Nodi'r camau a'r prosesau allweddol sydd eu hangen i wneud cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- **Lefelau cymorth presennol** - Beth yw'r lefelau cymorth presennol
- **Disgyniad y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** - Gwybodaeth am sut y caiff disgyniad ei gymhwyso i'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- **Rhagor o Wybodaeth** - Dolenni priodol i ragor o arweiniad a gwybodaeth

## Cefndir y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn disgrifio'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy fel y rhaglen cymorth ariannol hirdymor gyntaf erioed ar gyfer gwres adnewyddadwy.

Lansiwyd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ym mis Tachwedd 2011 fel cynllun ar gyfer y sector annomestig. Mae'n rhoi taliadau i'r diwydiant, i fusnesau ac i sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Lansiwyd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy domestig ym mis Ebrill 2014, ac mae'n canolbwyntio ar alluogi perchnogion cartrefi unigol i wresogi eu heiddo eu hunain. Dylai partïon â diddordeb fod yn ymwybodol bod unrhyw gynllun gwres adnewyddadwy sy'n gwresogi mwy nag un eiddo domestig (h.y. biliau Treth Gyngor lluosog) yn cael eu cynnwys o dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy annomestig, er enghraifft rhwydwaith gwresogi rhanbarthol ar raddfa fach sy'n gwresogi eiddo domestig. Dim ond y cynllun annomestig y mae'r modiwl hwn yn ei gwmpasu.

Mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn talu cyfranogwyr i gynhyrchu a defnyddio ynni o wres adnewyddadwy gyda'r nod o helpu'r DU i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chyrraedd targedau ar gyfer lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. Caiff y polisi ar gyfer y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ei sefydlu gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a chaiff y cynllun ei weinyddu gan Ofgem.

Mae'n bwysig nodi yma mai amcan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yw annog defnydd o wres adnewyddadwy a'i aeddfedrwydd ar y farchnad yn hytrach na darparu dull hirdymor o gefnogi'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae gan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy hefyd derfyn arian parod.

Mae'r mathau o ddulliau gwresogi a gwmpesir gan y cynllun fel a ganlyn:

- boeleri biomas;
- pympiau gwres (o'r ddaear, o ddŵr ac o aer i ddŵr);
- geothermol;
- gwres ac ynni cyfunol adnewyddadwy biomas solet;
- casglwyr solar thermol; a
- biomethan a bionwy.

Caiff taliadau eu lledaenu dros 20 mlynedd a gwneir taliad bob tri mis. Maent yn seiliedig ar y swm o wres cymwys a ddefnyddir, ac maent yn dibynnu ar dechnoleg a maint.

**Cymhwysedd**

I fod yn gymwys ar gyfer y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy:

- mae'n rhaid i'r cyfarpar fod yn newydd;
- ar gyfer cynlluniau 45 cilowat o ynni thermol ($kW_{th}$) neu lai, mae'n rhaid i'r cyfarpar a'r gosodwr gael ardystiad Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) neu ardystiad cyfatebol (os oes un ar gael ar gyfer eich math o osodiad);
- rhaid defnyddio hylif neu stêm i gynhyrchu'r gwres;
- rhaid i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio i wresogi gofod neu ddŵr, neu i gynnal proses lle caiff y gwres ei ddefnyddio mewn adeilad, ac eithrio cymwysiadau sychu penodol yn yr awyr agored;
- ni ellir gwresogi un cartref domestig (er y gallai cyfuniad o gartrefi sy'n rhannu gosodiad gwresogi fod yn gymwys (e.e. bloc o fflatiau)); a
- ni allwch ddefnyddio grant cyhoeddus i brynu neu osod y cyfarpar.

## Sut i wneud Cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn llawer mwy manwl na'r rhai ar gyfer y Tariff Cyflenwi Trydan. Mae hyn oherwydd cyfluniadau gwahanol gosodiadau gwresogi ac mae angen i Ofgem, fel y gweinyddwyr, gael ateb i sawl cwestiwn a chael tystiolaeth i ddangos bod y meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni.

Mae mesuryddion gwres yn faes allweddol lle mae angen tystiolaeth. Caiff cynlluniau eu dosbarthu yn 'safonol' neu 'luosog'. Mae hyn yn dibynnu ar sut y caiff y gwres ei gynhyrchu, ei drosglwyddo o amgylch y system ac yna ei ddefnyddio. Yn ei dro, mae hyn yn rheoli gofynion mesuryddion.

Gall boeler biomas a leolir mewn ac a ddefnyddir i wresogi un adeilad yn llwyr fod yn enghraifft o gynllun safonol. Dim ond gosod un mesurydd gwres fyddai ei angen.

Byddai cynnwys ffynonellau gwres eraill, fel boeleri tanwydd ffosil wrth gefn yn yr ystafell foeler, yn enghraifft o gynllun lluosog. Mae hyn yn ychwanegu at gymhlethdod y system ac mae'n bosibl y cyflwynir gofynion o ran mesuryddion ar gyfer pob cyfarpar cynhyrchu a'r

angen i ddarparu asesiad o'r gwres a gollir er mwyn cyfrif am golledion gwres o bibellau allanol. Wrth wneud cais i'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, bydd angen i chi ddilyn nifer o gamau:

1. Cwblhau eich gosodiad gwres adnewyddadwy (gan sicrhau ei fod wedi'i osod a'i gomisiynu'n llawn[1]).
2. Casglu eich dogfennaeth: fel tystysgrifau comisiynu a diagramau o osodiadau. Bydd hyn yn eich galluogi i ateb cwestiynau Ofgem.
3. Creu cyfrif ar gofrestr Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig Ofgem.
4. Cwblhau ffurflen gais.
5. Lanlwytho tystiolaeth.
6. Dilysu manylion adnabod a banc.

Gall Ofgem godi cwestiynau yn ystod y broses gwneud cais. Bydd sicrhau eich bod wedi casglu'r holl wybodaeth a dogfennau perthnasol am eich gosodiad yn erbyn pwynt 2 uchod yn hwyluso'r broses o ymateb i unrhyw gwestiynau y gallant eu codi. Mae'r dolenni y soniwyd amdanynt yn gynharach yn rhoi gwybodaeth bwysig a fydd yn helpu i'ch tywys drwy'r broses ac yn sicrhau eich bod yn llawn ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen. Mae Ofgem wedi datblygu canllawiau byr hawdd i'w defnyddio yn seiliedig ar eu profiad hyd yma o ddelio ag achrediadau.

## Cyfrifoldebau ar ôl derbyn

Ar ôl cael achrediad y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, mae'n bwysig cofio bod nifer o rwymedigaethau parhaus i gydymffurfio â rheoliadau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Er mwyn cydymffurfio â'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

- cymryd darlleniadau mesurydd a'u cyflwyno i Ofgem ar-lein bob chwarter;
- cynnal a chadw pob cyfarpar a mesurydd gwres yn rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr a chadw cofnod o'ch amserlen cynnal a chadw;
- ar gyfer gosodiadau biomas, cadw derbynebau prynu sy'n cwmpasu ansawdd y tanwydd a ddefnyddir gan systemau gwresogi biomas neu, os ydych yn cynaeafu o'ch coetir eich hun, cofnod o'r achosion o gludo i'r boelerdy, yn cynnwys nodyn o ble y gwnaed y cynaeafu. Mae Ofgem wedi llunio'r 'Guide to keeping records for participants using 100% biomass fuel' er mwyn rhoi rhagor o ganllawiau;
- Mae hefyd angen i gyfranogwyr Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy sicrhau bod eu tanwydd yn bodloni meini prawf cynaliadwyedd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a dangos hyn i Ofgem er mwyn gwneud cais am daliadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Rhaid i danwydd fodloni meini prawf allyriadau nwy tŷ gwydr cylch (GHG) oes o 60 y cant o arbedion GHG yn erbyn cyfartaledd tanwydd ffosil yr UE. I sicrhau hyn, dylid prynu pob tanwydd gan gyflenwr a restrir ar y Rhestr Cyflenwyr Biomas (gweler 'Rhagor o Wybodaeth');
- rhoi gwybod i Ofgem am unrhyw newidiadau sylweddol i'ch gosodiad neu ddefnydd o wres; a
- cyflwyno datganiad blynyddol yn cadarnhau eich bod yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau.

Gellir dewis cynnal archwiliad, arolygiad safle neu'r ddau ar un o gyfranogwyr y cynllun unrhyw bryd.

[1] Ar gyfer prosiectau mwy (uwchlaw 1MWth) ceir cyfle i wneud cais am gymeradwyaeth rhag-achrediad. Ni fydd y rhan fwyaf o brosiectau yn dilyn y llwybr hwn felly ni chaiff hyn ei drafod ymhellach yn y canllaw hwn.

## Lefelau tariff cymorth


Caiff lefelau tariff Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy eu hadolygu'n rheolaidd, felly mae'n werth sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r tariffau diweddaraf. Ceir dolen i'r tariffau cyfredol gan Ofgem yn yr adran 'Rhagor o Wybodaeth'.

Mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn cynnwys dull talu tariff haenog ar gyfer rhai technolegau. Mae haen 1 yn bodoli er mwyn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r defnydd blynyddol ar gyfer boeler gyda lefel y tariff wedi'i gynllunio i dalu costau cyfalaf a chostau rhedeg y gosodiad. Mae tariff haen 2 sydd ar lefel is yn ei gwneud yn haws i osodiadau gynhyrchu gwres ychwanegol dim ond er mwyn cynhyrchu refeniw ac mae'n rhoi cymorth tuag at gost tanwydd biomas.

Caiff y rhaniad rhwng yr haenau ei ddiffinio fel capasiti thermol gosodedig yr uned wedi'i luosi gan 1,314 o oriau llwytho brig (15% o'r allbwn blynyddol wedi'i raddio). Mae haen 2 yn gymwys i unrhyw wres defnyddiol cymwys a gynhyrchir uwchlaw'r rhaniad.

At ddibenion dangosol, mae Ffigur 1 yn dangos y cyfraddau tariff ar gyfer 1 Ionawr 2018.

**Ffigur 1: Tariffau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy cymwys ar gyfer gosodiadau â dyddiad achredu ar neu ar ôl 20 Medi 2017 (Ffynhonnell: Ofgem, 2018)**




Nodwch fod tariffau gwahanol yn bodoli ar gyfer geothermol dwfn, biomethan a bionwy. Nid ydym wedi cynnwys y tariffau yn y ffigur uchod er mwyn sicrhau y gellir ei ddarllen yn haws. Mae'r technolegau hyn yn llai tebygol o fod yn rhan o ddatblygiad ar raddfa gymunedol. Mae manylion pellach ar lefelau tariff ar gyfer y technolegau hyn ar gael o wefan Ofgem (gweler 'Rhagor o Wybodaeth').

## Disgyniad Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Fel y soniwyd, er mwyn sicrhau bod y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, cyflwynodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ddull disgyniad i reoleiddio lefel y taliadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. O dan y dull hwn, bydd y tariffau a delir i dderbynyddion newydd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn lleihau os bydd nifer y bobl sy'n ei gael yn fwy na rhagolygon yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. I'r gwrthwyneb, os bydd llai o bobl yn ei gael o

gymharu â rhagolygon yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, bydd y tariffau'n cynyddu. Noder mai dim ond i newydd-ddyfodiaid i'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy y bydd disgyniad yn gymwys. Pan gaiff gosodiad ei achredu caiff y lefelau tariff eu gosod (yn amodol ar fynegeion chwyddiant). Mae hyn yn golygu y gall unrhyw brosiect newydd gynllunio'n ariannol ar gyfer hyd oes y prosiect. Ers i'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy annomestig gael ei sefydlu, mae lefelau tariff wedi lleihau ar gyfer biomas ac wedi cynyddu ar gyfer pympiau gwres o'r ddaear. Defnyddiwyd rhagolygon o lefel y gwres adnewyddadwy sydd ei angen i gyflawni'r gyfran gwres o dargedau ynni adnewyddadwy y DU ar gyfer 2020.

Mae'r dull disgyniad yn gymhleth, a chynhelir adolygiadau bob tri mis yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n cael y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Os bydd y nifer yn uwch na'r lefelau sbarduno a nodwyd, yna gellir lleihau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar gyfer cynlluniau newydd 5% neu fwy.

## Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer ariannu ceisiadau

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cadw cofnod o'r wybodaeth a gasglwyd gennych cyn gwneud cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, oherwydd bydd incwm o Gymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn bwysig i fenthycwyr pan fyddant yn penderfynu p'un ai i ariannu prosiect. Nid yw'n bosibl i gael eich derbyn ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy tan ar ôl i'ch system gael ei chomisiynu. Felly mae'n bwysig gallu dangos cynnydd yn eich proses achredu yn ystod y camau cynnar o ymgysylltu â benthycwr.

## Rhagor o Wybodaeth

Cymhwyster ar gyfer y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy:
https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/non-domestic-renewable-heat-incentive-rhi/eligibility-non-domestic-rhi

Canllawiau a ffurflenni Ofgem https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/non-domestic-renewable-heat-incentive-rhi/how-apply-non-domestic-rhi

Mae Ofgem hefyd wedi cynhyrchu canllaw 'cwestiynau cyffredin' ar fesuryddion. Mae hwn i'w gweld yma: https://www.ofgem.gov.uk/ofgem-publications/63959/renewable-heat-incentive-faqs-metering.pdf

Gwybodaeth am y gofynion ar gyfer cadw cofnodion tanwydd:
https://www.ofgem.gov.uk/ofgem-publications/82674/guidetokeepingfuelrecordsforbiomass.pdf

Y Rhestr Cyflenwr Biomas a gwybodaeth ategol: http://biomass-suppliers-list.service.gov.uk/

Mae'r tariffau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy diweddaraf ar gael yn:
https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/non-domestic-renewable-heat-incentive-rhi/tariffs-apply-non-domestic-rhi-great-britain

Gellir dod o hyd i ddogfen ymgynghoriad y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, sydd ar gael tan 27 Ebrill 2016, yn: https://www.gov.uk/government/consultations/the-renewable-heat-incentive-a-reformed-and-refocused-scheme

Comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Lluniwyd Ricardo Energy & Environment gan adeiladu ar waith a gwblhawyd gan Gynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban

© Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban 2009, 2010, 2011, 2012

*Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Chwefror 2018*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

energy saving trust | ymddiriedolaeth arbed ynni